



Rhestr Wirio Doctor Beics Ifanc

Brêcs

- A yw eich brêcs yn stopio'ch beic yn dda?
- Edrychwch ar y blociau brêcs, ydyn nhw wedi gwisgo?
- Ydi liferi'r brêcs yn dynn ac yn syth?

Olwynion a Theiars

- Gwiriwch fod y teiars wedi'u pwmpio ac yn teimlo'n galed. A yw gwadnau'r teiars ar y ddwy olwyn mewn cyflwr da neu wedi gwisgo?
- A yw'r olwynion yn troi'n hawdd?

Llywio

- Dylai'r cyrn neu handlenni fod yn syth.
- A yw'r teiar blaen yn unionsyth i fyny canol y beic pan fyddwch chi'n edrych i lawr arno?

Sedd a Phostyn Sedd

- Rhowch siglad i'ch sedd i wneud yn siŵr bod clamp y postyn sedd yn dynn ac nad yw'r sedd yn symud.

Pedalau a Chadwyn

- Trowch eich pedalau, a ydyn nhw'n symud yn rhwydd?
- Edrychwch ar eich cadwyn, dylai fod yn arian neu'n llwyd, nid brown rhydyd! Sicrhewch eich bod yn rhoi ychydig o olew cadwyn ar ddolenni'r gadwyn yn rheolaidd i'w helpu i weithio'n dda.

Ffrâm

- Gwiriwch y ffrâm am ddifrod, cnociau a rhwd. Mae'n bwysig ichi gadw eich beic yn sych a glân ar ôl ei ddefnyddio i'w gadw yn y cyflwr gorau!

